



Cydnerth a Chynhyrchiol

Ein Ffermydd



33 o brosiectau ar draws [Rhwydwaith Ein Ffermydd](#) yn canolbwyntio ar:

- › Meincnodi › Cynllunio busnes
- › Lleihau mewnbynnau allanol › Bioddiogelwch
- › Arallgyfeirio i arddwriaeth

Dosbarthiadau Meistr



191 yn bresennol ar draws
16 Dosbarth Meistr gan gynnwys:



- Bwtcamp Busnes
- Sut mae benthycwyr yn gweld cyfrifon
- Meistr ar Wndwn Llysieuol
- Mentrau gwartheg biff o wartheg llaeth i'w hystyried

Adborth:

"Strwythur da iawn i'r diwrnod, digon o amser ar gyfer cwstiynau, sesiwn ymarferol a braf cwrdd â'r bobl yn y grŵp."

Grwpiau Trafod



Categoriâu SFS	Nifer y cyfarfodydd	Oriau KT	Unigolion a gefnogwyd
Cydnerth a Chynhyrchiol	110	258	756
Meincnodi a cynllunio busnes	79	185	527
Lleihau mewnbynnau allanol	84	192	581
Trosi i ffermio organig / adfywiol	4	10.5	21
Arallgyfeirio	9	26	62
Mentrau ar y cyd	6	16	33
Bio-ddiogelwch	21	48	170

ENGHREIFFTIAU:

- Meincnodi ac Adolygu DPAau
- Adolygiadau Busnes a gosod nodau
- Datblygiad Personol
- Bioddiogelwch
- Rheoli Pori
- Cynllunio ar gyfer arallgyfeirio, Strategaeth ac Olyniant
- Maeth

Digwyddiadau ymwybyddiaeth strategol



16 Digwyddiad 262 yn Bresennol

Engbreiffiau o ddigwyddiadau a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod hwn oedd: ■ Bwydo'r fuchch laeth fodern gyda silwair 2023 – sut i gael mwy am lai ■ Iechyd Anifeiliaid – Pwysigrwydd Maeth mewn Defaid

Cymorthfeydd



Cwblhawyd 182 o gymorthfeydd

Roedd y pynciau'n cynnwys - Arallgyfeirio, Cynllunio, Busnes

Adborth: "Roedd hwn yn wasanaeth ardderchog; fe wnaethant egluro mwy am gynllunio a sut mae hynny'n berthnasol i'n gweithrediadau ffermio mewn awr nag yr wyf wedi'i ddysgu yn fy mywyd hyd yn hyn. Erbyn hyn, mae gennym gynllun llawer mwy clir ar gyfer y dyfodol a hyder yn yr hyn y gallwn ei wneud."

Dechrau Ffermio ac Olyniaeth



327

o Geiswyr

76

o Ddarparwyr

Cyfleoedd Mentro ar y Cyd

Pecynnau cymorth a gyrchwyd	Cwblhawyd
Aseidiadau Busnes	8
Cyfarfodydd Teuluol ar Olyniaeth	16
Cynllunio Busnes	2
Cyngor Cyfreithiol	1

Yn datblygu proffil

2

Cyfle wedi'i gyhoeddi

7

Parau

20

Mentora



196.6 awr o fentora

- Meincnodi a chynllunio busnes
- Trosi i ffermio organig/adfywiol
- Arallgyfeirio (gan gynnwys i arddwriaeth) ac ychwanegu gwerth
- Mentrau ar y cyd, cynllunio olyniaeth a newydd-ddyfodiaid
- Dechrau a datblygu busnes garddwriaeth

Mae dyfyniadau o ddyddiaduron mentora'n cynnwys:

1. Canolbwyntio ar gydraddoldeb ac amrywiaeth gydag ymweliadau fferm, sut i hybu menywod mewn amaethyddiaeth a chael pobl anabl ar y fferm a hefyd monitro effaith gymdeithasol cynnal rhaglenni addysgol ar ffermydd fel prosiect arallgyfeirio.
2. Ceisiwyd cael mwy o eglurder ynghylch maint yr elw. Ystyried gwneud rhestr ffisegol o fanteision ac anffanteision ei fuches sugno. Y mentorai i gasglu data ar loia, oedran gwerthu, costau porthiant ac ati.
3. Wedi trafod gwahanol raglenni TAW megis Xero, QuickBooks yn ogytal â thaenlenni.

Agrigôp



21 cyfarfod Agrigôp

- Meincnodi a chynllunio busnes
- Lleihau mewnbynnau allanol er mwyn sicrhau'r elw mwyaf posibl a bod o fudd i'r amgylchedd
- Trosi i ffermio organig/adfywiol
- Arallgyfeirio (gan gynnwys i arddwriaeth) ac ychwanegu gwerth
- Mentrau ar y cyd, cynllunio olyniaeth a newydd-ddyfodiaid
- Dechrau a datblygu busnes garddwriaeth
- Bioddiogelwch (systemau da byw ac âr)

Roedd y grwpiau a gyfarfu yn ystod y cyfnod hwn yn canolbwyntio ar -

Mae grŵp o ffermwyr llaeth gyda pheiriannau gwerthu llaeth yn rhannu profiadau/heriau ac yn cydweithio i ddatblygu eu mentrau i'w gwneud yn fwy cynaliadwy ar ôl profi gostyngiad mewn gwerthiant.

Mynd i'r afael â symudedd gwartheg drwy rannu gwybodaeth, syniadau ac, yn bwysicaf oll, newidiadau ymarferol y gellir eu rhoi ar waith ar y fferm i fynd i'r afael â heriau cloffni.

Archwilio'r posibilrwydd o blannu coed ysgaw ac o bosibl gnydau aeron eraill fel systemau amaeth-goedwigaeth ar eu ffermydd.

Hyfforddiant Achrededig



	Cyrsiau ar gael	Unigolion a Gefnogwyd	Oriau o Hyfforddiant	Cyllid grant
Cyfanswm	22	10	81	£2,360

Cefnogwyd 10 busnes.

Roedd cyrsiau'n cynnwys: Marchnata eich busnes, Dyfarniad Lefel 3 mewn Diogelwch Bwyd ym maes Arlwy, Gweithgynhyrchu neu Adwerthu, Cynllunio ar gyfer arallgyfeirio neu fenter newydd ar y fferm

Adborth gan unigolyn a fu'n bresennol:

"Rwy'n bwriadu newid y ffordd rwy'n meddwl am y cyfryngau cymdeithasol a chreu ymgyrchoedd marchnata a strategaethau cyn postio ar-lein."

Clinics



Cwblhawyd 479 o glinigau

Roedd y pynciau'n cynnwys -  Priddoedd  Dŵr

Adborth:

"Diolch. Roedd yn ddefnyddiol iawn cael y dadansoddiad pridd ac rwy'n awyddus i wella'r ffordd rwy'n rheoli'r tir o ran gwrtaith ac ati."

E-Ddysgu

Cefnogwyd 53 o unigolion gwahanol o 52 busnes



Roedd y cyrsiau a gwblhawyd yn cynnwys:

E-Ddysgu: Uned Orfodol: Hanfodion Busnes Llwyddiannus E-Ddysgu: Cynllunio a Chyllid

Cyrsiau Newydd sydd ar gael ar BOSS:

E-Ddysgu: Effeithlonrwydd Ynni ar Ffermydd Grawn
E-Ddysgu: Ffermio Cynaliadwy - Trosolwg o Wytwnch a Chynhyrchu
E-Ddysgu: Cyflwyniad i Ffermio Cynaliadwy

Rhaglen Geneteg Defaid Cymru



Gweithgarwch Trosglwyddo Gwybodaeth

Gweithdai 'Cyflwyniad i Gofnodi Perfformiad' - roedd 40 o unigolion yn bresennol i ddysgu sut mae gwell geneteg defaid yn arwain at ddiadell fwy effeithlon a chynhyrchiol.

Gweminar 'Pwysigrwydd maeth mamogiaid, cyn ar ôl wyna' - roedd 40 o unigolion yn bresennol ar gyfer gweminar gyda'r arbenigwr defaid Kate Phillips, a oedd yn canolbwyntio ar fodloni gofynion deietegol mamogiaid wrth baratoi ar gyfer wyna, ac wedyn.

Adborth gan y rhai a fu'n bresennol:

"Gweminar addysgiadol iawn, a oedd yn ddefnyddiol iawn i mi ar yr union adeg gywir."

Taith Rhaglen Geneteg Defaid Cymru i'r Alban - aeth 34 o unigolion a gymerodd ran yn Rhaglen Geneteg Defaid Cymru ar Daith Astudio ddeuddydd i'r Alban. Yr amcan oedd cyfnewid gwybodaeth drwy ymweld â thri ffermwr defaid a oedd yn gwthio ffiniau drwy harneisio arloesedd a mabwysiadu arferion ffermio amgen o fewn eu systemau da byw.

Adborth gan y rhai a fu'n bresennol:

"Taith wych wedi'i threfnu gan Raglen Geneteg Defaid Cyswllt Ffermio, ac ymwelwyd â rhai systemau ffermio trawiadol iawn. Wedi dysgu llawer am bwysigrwydd casglu data er mwyn gwella a dyfnhau nodweddion genetig o fewn y ddiadell. Daethom ag ychydig o syniadau oddi yno, a grŵp gwych o bobl i rwydweithio â nhw i rannu syniadau."

Gweithdai Iechyd a Lles Anifeiliaid



Bioddiogelwch (da byw ac âr)

519

Unigolion a Gefnogwyd

1557

Oriau Hyfforddiant a Ddarparwyd

37

Gweithdai a Ddarparwyd

Cefnogwyd 382 o unigolion gwahanol o 288 o fusnesau

Roedd pynciau'r gweithdai a ddarparwyd yn cynnwys:

Rheoli Parasitiaid mewn Gwartheg Rhan 2 - Llyngyr yr Iau, Protosoa ac Ectoparasitiaid, Rheoli Parasitiaid mewn Defaid Rhan 2: Y Clafr, Llau a Llyngyr yr Iau, Bwydo'r Ddiadell er mwyn cael y Perfformiad Gorau, Cloffni Defaid

Adborth gan y rhai a fu'n bresennol:

"Cyflwyniad rhagorol - addysgiadol iawn. Trafodwyd enghreifftiau da - rhoddwyd y cyfle i ofyn cwestiynau a chael trafodaeth am y pynciau."

"Sgwrs dda iawn. Addysgiadol a diddorol. Da i geidwaid da byw dibrofiad a phrofiadol. Lleoliad da. Staff cyfeillgar a hawdd mynd atynt."

Garddwriaeth



7

Digwyddiad Garddwriaeth

47

O unigolion wedi ei chefnogi

34

O wahanol fusnesau

Roedd y digwyddiadau'n cynnwys: Ystyried tyfu llysiau ar raddfa cae, Mesurau ymarferol i leihau colledion stoc planhigfeydd dros y gaeaf, Sut i drosi i ffermio organig

Adborth: "Digwyddiad da - wedi elwa o fod yma, yn ddi-ddorol iawn ac wedi'i gyflwyno'n wych ar daith y perchennog" - Ystyried tyfu llysiau ar raddfa cae. Tach 23

"Darlith neis, hawdd ei deall, dwi wedi dysgu llawer, Diolch! Yn bendant rhywfaint o gyngor defnyddiol" - Mesurau ymarferol i leihau colledion stoc meithrinfeidd dros y gaeaf. Rhag 23



CYMORTH BUSNES GARDDWRIAETH

Cefnogodd 20 o sesiynau cymorth busnes garddwriaeth 18 o unigolion o 17 o fusnesau gwahanol.

Cynhaliwyd 5 sesiwn rhwydwaith cadwyn cyflenwi 'Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion Cymru' gyda gweithgor o 7 unigolyn o 5 busnes.

Y nod yw datblygu carfan o dyfwyr i gynyddu faint o lysiau o Gymru sydd yn y system caffael cyhoeddus. Galluogi tyfwyr i ddeall y safonau sydd eu hangen i wneud hynny.

Gwasanaeth Cyngori



Achosion o gyngor a ddarparwyd:



Cynllunio Busnes 27



Da byw 1



Cyngor ar amaeth-amgylchedd 3



Cyngor Iechyd Anifeiliaid 53



Rheoli Glaswelltir 181

Dyfyndiadau gan ffermwyr

"Cyngor ardderchog, roedd yn hawdd siarad â'r cynghorydd, mae, wedi bod yn ased enfawr i'r busnes" - cyngor busnes

